# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

**2009 mccc 2**

## RHAN 1

GWELLA LLYWODRAETH LEOL

*Cydlafurio a gwella*

### 9 Pwerau cydlafurio etc

(1) Er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau ei hun neu ddyletswyddau awdurdod gwella Cymreig arall o dan adrannau 2(1), 3(2) ac 8(7), neu er mwyn hwyluso'r modd y mae'r dyletswyddau hynny'n cael eu cyflawni, mae gan awdurdod gwella Cymreig y pwerau yn is-adran (2).

(2) Mae'r pwerau yn bwerau i wneud y canlynol—

- (a) rhoi cymorth ariannol i unrhyw berson;
- (b) ymrwymo i drefniadau neu gytundebau gydag unrhyw berson;
- (c) cydweithredu ag unrhyw berson, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau'r person hwnnw;
- (d) arfer ar ran unrhyw berson unrhyw un o swyddogaethau'r person hwnnw; ac
- (e) darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw berson.

(3) Nid yw'r adran hon yn lleihau neu estyn effaith unrhyw bwer arall sydd gan awdurdod gwella Cymreig.

### 10 Awdurdodau tân ac achub: pwerau dirprwyo

(1) Er mwyn i awdurdod tân ac achub Cymreig gyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) a 8(7) neu er mwyn ei gwneud yn hwylus iddynt gael eu cyflawni, bydd adran 101(1)(b) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) (trefniadau ar gyfer y modd y mae swyddogaethau i'w cyflawni gan awdurdodau lleol) yn cael effaith fel petai'r awdurdod yn awdurdod lleol at ddibenion yr adran honno.

(2) Nid yw'r adran hon yn lleihau neu estyn effaith unrhyw bwer arall sydd gan awdurdod tân ac achub Cymreig.

### 11 Ystyr "pwerau cydlafurio"

(1) At ddibenion y Rhan hon, mae cyfeiriad at "bwerau cydlafurio" awdurdod gwella Cymreig yn gyfeiriad at y canlynol—

(a) pwerau'r awdurdod gwella Cymreig o dan adran 9 o'r Mesur hwn;

(b) yn achos cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol—

(i) ei bwerau o dan adran 101(1)(b) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (trefniadau ar gyfer y modd y mae swyddogaethau i'w cyflawni gan awdurdodau lleol);

(ii) pŵer gan weithrediaeth yr awdurdod (neu bwyllgor neu aelod penodedig o'r weithrediaeth) i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 19(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22) (cyflawni swyddogaethau gan awdurdod lleol arall neu ar ei ran);

(iii) pŵer gan yr awdurdod i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau o dan reoliadau a wnaed o dan adran 19(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

(c) pŵer yr awdurdod gwella Cymreig i awdurdodi person (neu rai sy'n cael eu cyflogi gan y person) i arfer swyddogaeth ar ran yr awdurdod o dan orchymyn a wnaed o dan adran 70 o Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40);

(d) yn achos awdurdod tân ac achub Cymreig, ei bwerau o dan adran 101(1)(b) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y rhoddir effaith i'r adran honno mewn perthynas â'r awdurdod gan adran 10 o'r Mesur hwn);

(e) yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol, ei bwerau o dan adran 101(1)(b) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y rhoddir effaith i'r adran honno mewn perthynas â'r awdurdod gan baragraff 13 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25)).

(2) Yn is-adran (1)(b)(ii) mae i "gweithrediaeth" yr un ystyr ag *"executive"* yn Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

### 12 Dyletswyddau mewn perthynas â phwerau cydlafurio

(1) Rhaid i awdurdod gwella Cymreig bwyso a mesur o bryd i'w gilydd a fyddai arfer unrhyw un o'i bwerau cydlafurio yn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 2(1), 3(2) a 8(7).

(2) Os daw'r awdurdod i'r casgliad y byddai arfer pŵer cydlafurio yn ei helpu i gydymffurfio â'r dyletswyddau hynny, rhaid iddo geisio arfer y pŵer, neu geisio peri iddo gael ei arfer.